


# Ein Datganiad Gwerth am Arian

Cyfnod 1af o Ebrill 2024 – 31ain o Fawrth 2025

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Cynnwys

Tudalen **3** - **Crynodeb Gweithredol**

Tudalen **4** - **Ymgorffori Gwerth am Arian**

Tudalen **5** - **Perfformiad**

- **Tudalen 5 –** Gwarged Gweithredu
- **Tudalen 6 –** Gwneud y Mwyaf o'n Hincwm
- **Tudalen 6 –** Gwneud y Mwyaf o'n Sylfaen Costau
- **Tudalen 8 –** Boddhad Cwsmeriaid a Pherfformiad
- **Tudalen 8 –** Rheoli Tai
- **Tudalen 10 –** Atgyweiriadau Ymatebol, Eiddo Gwag a Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio
- **Tudalen 11 –** Rheoli Eiddo
- **Tudalen 12 –** Gwneud y mwyaf o'n pobl

Tudalen **13** - **Y Ffordd Ymlaen**



## Agored

Byddwn yn gweithredu'n onest a gydag uniondeb a bydd ein penderfyniadau'n gynhwysol ac yn dryloyw.



## Teg

Rydym yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau teg a chyfartal teg, a sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal.



## Hyblyg

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd arloesol a rhagweithiol ac yn ystyried bod newid yn gyfle.



## Cyflawni

Byddwn yn gosod nodau a thargedau uchelgeisiol ac yn eu cyflawni.

# Crynodeb Gweithredol

Mae sicrhau gwerth am arian yn parhau i fod yn ymrwymiad craidd i CTSF wrth inni ddarparu cartrefi diogel, fforddiadwy a gwasanaethau o ansawdd uchel i gymunedau ledled Sir Fynwy a'r ardaloedd cyfagos. Gwelwyd pwysau economaidd sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cynnydd mewn chwyddiant a chostau adeiladu, a chyfyngu ar gyllid cyhoeddus. Rydyn ni wedi parhau i wneud penderfyniadau strategol sy'n diogelu gwerth i denantiaid a'r cymunedau yr ydyn ni'n eu gwasanaethu, yn y tymor hir.

Er gwaethaf yr heriau allanol, rydyn ni wedi cynnal gwarged cryf, a wnaeth ein galluogi i ail-fuddsoddi i gynnal a gwella ein cartrefi presennol, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a chryfhau'r gwasanaethau a ddarperir. Mae ein perfformiad yn adlewyrchu sefyllfa ariannol gadarn, ac yn sail i hyn, mae lefelau uchel o foddhad tenantiaid, incwm ardderchog, ac ôl-ddyledion rhent sy'n gyson isel.

Rydyn ni'n parhau i ymgorffori diwylliant o welliant parhaus, gan ganolbwyntio ar effeithlonrwydd, rheoli costau, a monitro perfformiad i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol a chyfrifol. Wrth edrych tua'r dyfodol, rydyn ni'n parhau i ymrwymo i ddarparu gwerth trwy arloesi, cydweithredu a rheoli ein harian mewn ffordd ddarbodus - gan sicrhau bod ein gwaith yn parhau i ddiwallu anghenion esblygol ein tenantiaid ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Integreiddio Gwerth am Arian i wneud penderfyniadau, cynllunio ac adrodd

Monitro ein gallu i gyflawni Gwerth am Arian trwy adrodd a meincnodi

Sicrhau bod staff yn deall ein hegwyddorion Gwerth am Arian a'i fod yn gyfrifoldeb arnynt i fynd ar drywydd hyn Gwerth am Arian yng ngweithgareddau'r Gymdeithas

Y gallu i ddangos bod Gwerth am Arian yn cael ei gyflawni

**Ein gweledigaeth** yw darparu cartrefi o ansawdd uchel i gwsmeriaid hen a newydd. Rydym yn ceisio trawsnewid bywydau, a helpu pobl i wireddu eu huchelgeisiau mewn cymunedau ac ardaloedd bywiog lle maen nhw'n dyheu i fyw a gweithio.


***Safon Reoleiddio 6 - Mae gan y sefydliad ymagwedd strategol at werth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a'i weithgareddau***

***(a) i bennu ei ymagwedd strategol at werth am arian a gall ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid.***


***- Y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru - Awst 2025***

# Ymgorfforl Gwerth am Arian

Mae hyrwyddo buddiannau i'r eithaf yn sail i'n hagwedd at Werth am Arian: gwneud y pethau cywir am gyn lleied o gost â phosibl, trwy wneud y pethau hynny'n iawn. Mae ein hegwyddorion Gwerth am Arian wedi eu hymwreiddio yn ein hamcanion corfforaethol, ac maent yn llywio'r ffyrdd yr ydyn ni'n mynd ati i ddyrannu adnoddau ar draws ein rolau fel landlord cymdeithasol, datblygwr, partner, cyflogwr, ac wrth gyfrannu at adeiladu cymunedau gwych.




Er mwyn meithrin diwylliant o Werth am Arian ar draws CTSF, rydyn ni'n cyflawni ein hamcanion Polisi Gwerth am Arian - gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol a boddhad, defnyddio asedau ac adnoddau yn ddoeth, cryfhau cydweithio, a gwella dulliau caffael. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hymgorffori yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd trwy hyfforddiant, rheoli perfformiad, a gwneud penderfyniadau gwybodus, gan sicrhau bod egwyddorion GaA yn cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson (gweler y map o'r broses isod).



# Perfformiad

**Ciplun o'r llwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn2024/2025** **Ciplun o'r llwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn2024/2025**

## POBL

**92.7%**

Mae 92.7% yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth yn gyffredinol.

**Dyfarniad Rheoleiddio 2024**

Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid / Cydymffurfio â Hyfywedd Ariannol.

## LLEOEDD

**17**

Insiwleiddiwyd waliau allanol 17 o gartrefi.

**82**

Cafodd 82 o gartrefi baneli Solar PV.

**27**

Cafodd 27 o gartrefi newydd eu hadeiladu.

## Y BLANED

**Mabwysiadwyr' Safonau Adrodd ar Gynaliadwyedd y DU**

## FFYNIANT

**Cwblhawyd adolygiad llawn o effeithiolrwydd y bwrdd**

## Gwarged (Swm sy'n weddill)

Mae Gwarged CTSF – sef incwm sy'n fwy na chostau gweithredu, yn ddangosydd allweddol o ran cynaliadwyedd ariannol. Mae'r swm sy'n weddill yn cael ei ail-fuddsoddi'n strategol i gynnal a gwella cartrefi presennol, cyflenwi mwy o gartrefi fforddiadwy , a chryfhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i denantiaid.

**Gwarged gweithredu'r Gymdeithas dros y pum mlynedd diwethaf oedd:**

| Blwyddyn ariannol | Gwarged gweithredu £'000 | Gwarged Gweithredu % |
|---|---|---|
| 2024/25 | 5,126 | 18.3 |
| 2023/24 | 6,333 | 24.36 |
| 2022/23 | 1,120 | 4.61 |
| 2021/22 | 3,820 | 13.34 |
| 2020/21 | 4,217 | 18.41 |

Gan adeiladu ar yr effeithlonrwydd a gyflawnwyd yn 2023/24 trwy ein Strategaeth Ddigidol a'n mentrau caffael, mae CTSF wedi llwyddo i gynnal gwytnwch ariannol cadarn yn 2024/25 er gwaethaf amgylchedd heriol o ran costau. Er bod y gwarged wedi gostwng fymryn, roedd hyn yn ganlyniad a gynlluniwyd i fuddsoddi mwy mewn atgyweiriadau mawr ac ailosod cydrannau i sicrhau cynaliadwyedd ein hasedau yn y tymor hir. Rhoddodd y gwelliant a welwyd yn y flwyddyn flaenorol, sylfaen gadarn inni, a'n galluogi i ymgorffori pwysau chwyddiant a chostau gweithredu cynyddol heb gyfaddawdu ein gallu i fodloni gofynion ariannu neu symud ymlaen â'n huchelgeisiau i ddatblygu. Mae'r perfformiad hwn yn dangos ein ffocws parhaus ar gydbwyso effeithlonrwydd â buddsoddiad strategol, gan sicrhau bod gwargedion yn cael eu defnyddio i sicrhau gwerth am arian a chefnogi'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Busnes hirdymor.

# Gwneud y Mwyaf o'n Hincwm

## Gwneud y mwyaf o renti

Nod polisi gosod rhent CTSF yw rhoi methodoleg i gyfrifo rhenti sy'n ddigonol i sicrhau bod CTSF yn parhau i wneud y mwyaf o'i chyfraniad i'w chymunedau; wrth sicrhau bod rhenti bob amser yn parhau'n deg, yn dryloyw ac yn fforddiadwy i denantiaid.

## Lleihau'r amser y mae ein cartrefi'n wag rhwng tenantiaethau

Mae CTSF yn parhau i weithio tuag at darged o 28 diwrnod yn y cyfnod rhwng 'derbyn allweddi a rhoi allweddi'. Rydym wedi parhau i arwain yn y sector gyda safon eiddo gwag sy'n rhagori ar yr LCC eraill gan gynnwys ailaddurno llawn, yr holl waith trwsio wedi'i gwblhau, lloriau drwyddo draw a gwaith gardd lle bo angen.

## Adennill y mwyaf posibl o rent a thaliadau gwasanaeth

Mae ôl-ddyledion tenantiaid presennol a chyn-denantiaid wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, a gellir priodoli hyn i waith ataliol sy'n cael ei wneud yn y ddau faes, ynghyd ag ymagwedd gefnogol a disgwyliadau clir.

| Dyddiad | Swm Ariannol | Debyd Gros y gellir ei gasglu (£) | Gwerth Perfformiad | Targed |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2025 | £212,000 | £24m | 0.9% | 1% |
| Mawrth 2024 | £216,123.93 | £22m | 0.99% | 1% |
| Mawrth 2023 | £244,827.08 | £20m | 1.22% | 1% |

**Canran yr ôl-ddyledion rhent presennol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol:**

| Dyddiad | Swm Ariannol | Debyd Gros y gellir ei gasglu (£) | Gwerth Perfformiad | Targed |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2025 | £465,000 | £24m | 1.97% | 3% |
| Mawrth 2024 | £475,966.47 | £22m | 2.18% | 3% |
| Mawrth 2023 | £450,460 | £20m | 2.24% | 3% |


# Gwneud y mwyaf o'n sylfaen costau

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | CTSF 2024/25 | CTSF 2023/24 | CTSF 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Costau gweithredu o ran gosod fesul uned tai cymdeithasol | £7,069 | £5,655 | £5,876 |
| Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol | £1,208 | £1,171 | £1,404 |
| Costau atgyweirio ymatebol fesul uned tai cymdeithasol | £2,636 | £2,285 | £1,530 |
| Costau atgyweirio ac elfennau mawr fesul uned tai cymdeithasol | £2,880 | £1,841 | £2,637 |
| Ôl-ddyledion fesul uned tai cymdeithasol | £243 | £351 | £338 |
| Diffyg rhent oherwydd cartrefi gwag, fesul uned tai cymdeithasol | £47.46 | £46.86 | £43.21 |
| Cost cyfalaf ar gyfartaledd pwysol | 2.26% | 2.26% | 2.26% |

Mae ein tueddiadau DPA dros y tair blynedd diwethaf yn adlewyrchu pwysau gweithredol a phenderfyniadau buddsoddi strategol. Mae costau gweithredu fesul uned tai cymdeithasol wedi cynyddu o **£5,876** Yn 2022/23 i **£7,069** yn 2024/25, a hynny gan bwysau chwyddiant a safonau uwch o ran y gwasanaethau a ddarperir. Mae costau rheoli wedi aros yn gymharol sefydlog, gan ddangos cynnydd o ran effeithlonrwydd er gwaethaf costau cynyddol mewn mannau eraill. Mae costau atgyweiriadau ymatebol wedi codi'n sylweddol, sy'n adlewyrchu cynnydd yn y galw a chostau uwch o ran deunyddiau a llafur, tra bod atgyweiriadau mawr a chostau cydrannau wedi amrywio oherwydd cylchoedd buddsoddi a gynlluniwyd, yn cyrraedd yr uchafbwynt yn 2024/25 wrth i ni flaenoriaethu cynaliadwyedd ein hasedau. I'r gwrthwyneb, mae ôl-ddyledion fesul uned wedi gostwng o **£351** i **£243**, sy'n dangos gwell dulliau rheoli incwm a chymorth i denantiaid. Mae colledion yn sgil diffyg rhent oherwydd cartrefi gwag wedi aros yn isel ac yn sefydlog, sy'n dangos galw cryf a phrosesau gweithdro effeithiol. Mae costau cyfalaf a gafodd eu pwysoli ar gyfartaledd, wedi parhau'n sefydlog ar **2.26%**, gan sicrhau bod cyllid yn parhau i fod yn gost-effeithiol. Mae'r symudiadau hyn yn dangos ein hymrwymiad i gydbwyso rheoli costau gyda buddsoddiad hirdymor mewn cartrefi a gwasanaethau, wrth gynnal gwytnwch ariannol a rhoi gwerth am arian.

**Incwm 2024/2025**

## O ble mae ein harian yn dod:





- Rhenti Derbyniadwy
- Grantiau'r Llywodraeth wedi'u Hamorteiddio
- Incwm Tâl Gwasanaeth
- Incwm Arall
- Incwm Lesddeiliaid
- Incwm ar gyfer Gwasanaethau Cymorth

Cyfanswm **£27.615m**

**Gwariant 2024/2025**

## Ar beth y gwnaethom wario ein harian:




- Cynnal a Chadw Arferol
- Dibrisiant Eiddo Tai
- Costau rheoli
- Atgyweiriadau Mawr
- Costau Tâl Gwasanaeth
- Costau Eraill
- Dyledion Drwg

Cyfanswm **£24.814m**

## Boddhad Cwsmeriaid a Pherfformiad

Mae CTSF yn cynnal ei harolwg ei hun gyda defnyddwyr gwasanaeth. Fe wnaeth y diweddaraf a gwblhawyd yn ystod yr haf ddenu cyfradd ymateb gan **27.82%**. Mae'r canlyniadau'n cael eu defnyddio ar lefel tîm i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, fel y gellir targedu adnoddau yn y meysydd cywir. Roedd:

yn fodlon gyda'r gwasanaeth ar y cyfan

**92.7%**

yn fodlon bod rhent yn rhoi Gwerth am Arian

**70.2%**

yn fodlon ag ansawdd eu cartrefi

**88%**

yn fodlon bod taliadau gwasanaeth yn rhoi Gwerth am Arian

**91%**

yn fodlon â chymdogaethau fel lle i fyw

**85.8%**

yn fodlon ag atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw

**90.2%**

**Canolfan Galwadau Cwsmeriaid:**

**98.9%**

Roedd 98.9% yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm CSA.

**Boddhad gydag atgyweiriadau:**

**96%**

Roedd 96% yn fodlon gyda'r gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw a ddarperir gan y Gwasanaethau Adeiladu.

## Rheoli Tai

Yn ystod 24/25 fe wnaethom fuddsoddi £996,000 i gynnal ein cymunedau, gyda 44% o'r cyllid hwn gan ffynonellau allanol. Am ragor o fanylion, ewch i'n gwefan i ddarllen yr Adroddiad ar Gymunedau Cynaliadwy 'Creu Effaith', a'n rhifyn diweddaraf o'r Adolygiad Blynyddol - Cwsmeriaid.




Cyllideb Gyffredinol

**£968k**

Cyllid allanol a phrif ffynonellau

**£643k**

(53% o'r gyllideb gyffredinol)

**I grynhoi, dyma gipolwg o'r 'gwerth' cymunedol a grëwyd eleni...**

## 7

Mae **7** o'r **25** aelod yn y timau cymunedol yn cael eu hariannu gan grant.

## £1.9m

Trwy wneud y mwyaf o incwm a chyngor ariannol rydyn ni wedi sicrhau **£1.9m** mewn incwm ychwanegol i denantiaid a chymorth i gleientiaid yn ein timau Cynhwysiant a Chefnogaeth.

## 31

Cafodd **31** o bobl eu cefnogi i fyd gwaith eleni sy'n cynrychioli gwerth cymdeithasol o **£362,136**.

## 48

Cafodd **48** o ddigwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau eu cynhyrchu ar y cyd, gan ddenu **1,890** o bobl.

## 69

Cafodd **69** o aelwydydd sy'n agored i niwed gefnogaeth gan ein Hyrwyddwyr Tenantiaeth i gynnal eu tenantiaethau, ac fe wnaeth Tai a Llesiant gefnogi **87** o aelwydydd yn ystod y flwyddyn i atal digartrefedd.

## £50k

yw gwerth ein cyllideb caledi i gefnogi tenantiaid sy'n wynebu argyfyngau ariannol a chlustnodwyd **£13,000** ar gyfer cynllun grant Pitch for Your Project i gefnogi grwpiau cymunedol lleol. Felly, mae **£63,000** o'n cyllideb yn cael ei glustnodi i roi cymorth ariannol uniongyrchol i denantiaid a chymunedau unigol.

## £95k

trwy ein darpariaeth 'Trellis' (ein cronfa caledi ac ymyrraeth mewn argyfwng) o gyllideb caledi CTSF gwerth **£50,000** ac ymhellach mewn adnoddau allanol fel talebau tanwydd, Cronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn a thalebau clwb bwyd.

## £200k

Sicrhawyd contract gwerth **£200k** dros gyfnod o **18** mis gan yr awdurdod lleol i gyflawni **2** elfen o rhaglen Lluosi a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

## £240k+

Cafodd **£240k** ei adennill yn y gronfa Ffyniant Bro i gefnogi prosiect cynhwysiant digidol iConnect. Gwerth y grant oedd **£417,000** dros oes y prosiect.

## £45k

Sicrhawyd **£45k** yn uniongyrchol mewn grantiau bach, ac fe wnaethom gefnogi sefydliadau cymunedol i sicrhau **£80,500** arall o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau cymunedol.

## 278

Fe wnaeth **278** o bobl gymryd rhan yn iConnect a chafodd **17** o hyrwyddwyr digidol ei sefydlu (mae fideo yn dangos ei effaith ar gael yma).

## 738

Cyflawnwyd **738** o oriau hyrwyddwyr digidol gwirfoddol, gan greu cyfanswm sy'n gyfystyr â **£8,552.83**.

## 21,232

Cwblhawyd 21,232 o oriau gwirfoddoli cymunedol, sy'n gyfystyr â gwerth **£258,022**.

**Cliciwch ar at ein ffilm '[Brighter Futures]' sy'n cofnodi profiadau byw**

# Atgyweiriadau ymatebol, Cartrefi Gwag a Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd

Mae system atgyweiriadau newydd MHA wedi esblygu'n rheolaidd, gyda diweddariadau rheolaidd sy'n galluogi'r gwasanaeth i leihau achosion 'dim mynediad', gwella cynhyrchiant, monitro anfonebau isgontractwyr, nodi tasgau a gwblhawyd a chynhyrchu adroddiadau ar gyfer cyflyrau gwael.

**Mae llwyddiannau eraill yn cynnwys:**

- Mae adolygiad llawn o'r Gwasanaeth Atgyweirio ar y gweill ar hyn o bryd.
- Mae'r cartrefi gwag a'r rheiny sydd wedi eu meddiannu wedi bod yn destun ymarferion Gwerth am Arian, gan gymharu SLIU mewnol â Chontractwyr. Profodd y SLIU i fod fwyaf cost effeithiol gan gynnig mwy o fanteision.
- Mae CTSF yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel gan roi cwsmeriaid yn gyntaf. Rydyn ni'n addurno ac yn gosod lloriau drwyddi draw pan fyddwn yn ailosod eiddo sydd wedi bod yn wag.
- Mae unrhyw waith uwchraddio sydd wedi'i gynllunio, fel cegin, ystafell ymolchi, gwresogi a gwaith allanol yn cael eu cwblhau pan fydd eiddo yn wag, ochr yn ochr â rhaglen wedi'i chynllunio gan yr adran Rheoli Asedau.
- Rydym yn parhau i weithio tuag at ddeddfwriaeth newydd Cyfraith Awaab, Y Ddeddf Diogelwch Adeiladu, gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru a SATC 2023.

**Creu gwerth...**

**97.10%**

Cafodd 97.10% o'r atgyweiriadau eu cwblhau yn iawn y tro cyntaf yn unol â'r targed.

**100%**

Cafodd 100% o apwyntiadau atgyweirio eu cadw ar darged.

**100%**

yn fodlon â'r Atgyweiriadau i'w cartrefi.

**96.86%**

o gwsmeriaid yn fodlon ag atgyweiriadau targed.

**29**

diwrnod i droi cartrefi gwag o gwmpas – gosodiadau cyffredin (ac eithrio eiddo gwag a oedd yn galw am waith sylweddol).

**In 2024/25 we ...**

osod **156**

cegin ac ystafell ymolchi

gosod **176**

wffenest a drws

gwneud **290**

o welliannau i foeleri

gosod **82**

to newydd

# Rheoli Eiddo

### Caffael a Gwerth Cymdeithasol

## Yn CTSF, mae gwerth yn mynd y tu hwnt i'r gost - mae'n golygu creu newid parhaol, cadarnhaol.

Gyda throsiant blynyddol o tua **£32m** a gweithlu o tua **240**, mae gwariant CTSF gwerth **£23m** nad yw'n gysylltiedig â chyflog, yn cael ei rheoli drwy swyddogaeth caffael strategol dan arweiniad Rheolwr Caffael pwrpasol. Mae caffael yn chwarae rôl oll bwysig o ran cefnogi cynllunio cynnar, llunio penderfyniadau, a chyflawni amcanion ein sefydliad.

Er mwyn cryfhau ein dull gwerth cymdeithasol, mae CTSF wedi mabwysiadu'r fframwaith TCM (Themâu, Canlyniadau a Mesurau), sy'n ein galluogi i ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn contractau, a'i fesur.

## Ymhlith y themâu allweddol mae:

- **Cyflogaeth:** Swyddi, prentisiaethau a hyfforddiant lleol
- **Yr Economi Leol:** Gwariant gyda busnesau bach a chanolig lleol
- **Cymuned:** Cymorth i fudiadau gwirfoddol ac elusennol

Mae gwerth cymdeithasol yn cael ei ystyried ym mhob caffaeliad, wedi'i deilwra i anghenion lleol a pha mor berthnasol ydyw i'r contract. Bydd ein digwyddiad 'Cwrdd â'r Prynwr' sydd ar y gorwel, yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ganlyniadau cymunedol ystyrlon.

**Mae ein strategaeth gaffael yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol a nodau cymdeithasol ehangach, yn cynnwys:**

- Cefnogi pobl a diogelu cartrefi
- Hybu'r economi leol
- Gwella'r amgylchedd
- Cryfhau cymunedau a rhwydweithiau trydydd sector (ee GAVO)
- Gwella iechyd a lles

**Mae enghreifftiau o werth cymdeithasol ar waith yn cynnwys:**

- Cynhwysiant Digidol: Dyfeisiau, cysylltedd a hyfforddiant i denantiaid
- Hyfforddiant Sgiliau Gwyrdd: Cyrsiau Eco-adeiladu ac effeithlonrwydd ynni
- Ymgysylltu â Phobl Ifanc: Mentora, prentisiaethau a rhaglenni creadigol
- Paneli Cymunedol: Penderfyniadau dan arweiniad trigolion ar ariannu buddion
- Cymorth Iechyd Meddwl: Gweithdai, cwnsela a grwpiau cyfoedion
- Cymorth i Fusnesau Lleol: Gweithdai caffael a datblygu busnesau bach a chanolig
- Prosiectau Amgylcheddol: Cynlluniau gerddi ac ailgylchu dan arweiniad tenantiaid
- Cronfa Cymorth Brys: Help i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol
- Adrodd Effaith: Adrodd yn flynyddol a thryloyw ar ganlyniadau gwerth cymdeithasol

# Gwneud y mwyaf o'n pobl

**Cadw Pawb yn Ddiogel ac Iach**

Mae Grŵp CTSF wedi ymrwymo i ddiogelwch a lles tenantiaid a gweithwyr. Rydym yn buddsoddi mewn rhaglenni dysgu a datblygu cynhwysfawr sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol, cymwysterau sy'n benodol i rolau, a datblygiad proffesiynol.

**Mae hyfforddiant staff yn cael ei deilwra yn ôl eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:**

- Hyfforddiant ADRh: Sy'n cwmpasu Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 i sicrhau bod prosiectau yn cael eu cynllunio a'u cyflawni'n ddiogel
- Ymwybyddiaeth Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS): Arfogi staff i nodi risgiau iechyd a diogelwch tai, gyda chefnogaeth arbenigol gan awdurdodau lleol
- Ardystiad SMSTS: Cynllun Hyfforddi Diogelwch Rheoli Safle i'r rhai sy'n goruchwylio gweithgareddau adeiladu a chynnal a chadw
- Nwy - Cwrs Ailgofrestru: Cwrs Ailgofrestru bob 5 mlynedd, rheolaidd, ar gyfer peirianwyr nwy i gynnal safonau cydymffurfio a diogelwch

Yn 2024/25, aeth TCSF ati i gomisiynu Savills i gwblhau 1,850 o arolygon Asesu'r Stoc Gyfan. Cafodd yr holl beryglon HHSRS Categori 1 a nodwyd, eu datrys yn brydlon, gan sicrhau bod cartrefi yn ddiogel ac yn cydymffurfio.

## Cefnogi Lles Gweithwyr

Y tu hwnt i hyfforddiant technegol, mae CTSF yn cefnogi datblygiad personol ac arweinyddiaeth. Mae ein rhaglen 'Arweinwyr y Dyfodol' yn cynnig cyfleoedd mentora a hyfforddi i dri gweithiwr bob blwyddyn. Rydym hefyd yn ariannu dysgu nad yw'n gysylltiedig â gwaith.

**Mae lles gweithwyr yn cael ei gefnogi trwy:**

- Gynllun beicio i'r gwaith
- Opsiynau i brynu/gwerthu gwyliau
- Cwnsela a gwasanaethau iechyd galwedigaethol
- Polisïau gweithio hyblyg
- Cyfle rheolaidd, bob 6 wythnos i sgwrsio/dal i fyny gyda'r rheolwr
- Cynllun peilot pythefnos 9 diwrnod a lansiwyd ym mis Mehefin 2025 ar gyfer staff llawn amser

Mae ein grŵp lles Bywyd ac Enaid yn cynnal digwyddiadau fel Diwrnod Chwaraeon Staff, Gwiriadau Iechyd, a Gweithdai Lles sy'n hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol ac rydym yn glynu wrth Safonau Rheoli HSE i leihau straen a chefnogi presenoldeb.

**Yn 2024/25:**

**Lefelau presenoldeb**

Yn 2023/24 roedd cyfraddau absenoldeb salwch yn **4.04%**

**Trosiant** (gwirfoddol)

Yn 2023/24 roedd cyfraddau trosiant staff yn **6.99%**

**7.5%**

Fe wnaeth **7.5%** o gydweithwyr CTSF ennill cymwysterau proffesiynol yn ystod y 12 mis diwethaf

**11.87%**

oedd y bwlch cyflog canolrifol... Mae Grŵp CTSF yn talu Cyflog Byw Gwirioneddol

# Ein Cynlluniau Gwerth am Arian ar gyfer 25-26

Wrth i ni edrych ymlaen, rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwerth cryf am arian ym mhob un o'n meysydd gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, sicrhau cyllid allanol lle bo hynny'n bosibl, a sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i ddiwallu anghenion ein tenantiaid a'n cymunedau.

Rydyn ni'n buddsoddi mewn cartrefi newydd, cynnal ein stoc bresennol i safonau uchel a chefnogi tenantiaethau cynaliadwy – a'r cyfan oll wrth gadw boddhad cwsmeriaid wrth wraidd ein gweithrediadau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i ddatblygu ein gweithlu, gwella gwasanaethau digidol, a chryfhau ein dulliau llywodraethu a'n gwytnwch ariannol.

Er bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n strategaeth, mae ein hymrwymiad i effaith gymdeithasol, effeithlonrwydd gweithredol, a hyfywedd yn y tymor hir, i gyd, fel ei gilydd, yn sbarduno ein hymdrechion GaA . Rydym yn falch o fod yn rhan o fudiad ehangach i fod yn fusnes cyfrifol a byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd gyda thryloywder.

Am ragor o wybodaeth darllenwch ein Strategaeth Busnes Cyfrifol (ESG).

**Yn gryno, ein hymrwymiad i Werth am Arian yw:**

- Cynnal lefelau uchel o foddhad tenantiaid o ran GaA (taliadau rhent a gwasanaeth)
- Gwneud y mwyaf o enillion yn y dyfodol ar asedau a ddefnyddir
- Parhau i wella ein dealltwriaeth o'n sefyllfa werth am arian presennol
- Targedu'r adnoddau'n uniongyrchol i gyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng gwasanaethau rheng flaen, cynnal asedau presennol a darparu cartrefi newydd
- Parhau i hyrwyddo ac ymgorffori diwylliant Gwerth am Arian

# Targedau ar gyfer 2025/26

| | POBL | LLEOEDD | Y BLANED | FFYNIANT |
|---|---|---|---|---|
| **Amcanion GaA** | Gwneud y mwyaf o werth Cymdeithasol perfformio ar lefel uchel a chynyddu lefelau o foddhad | Defnyddio ein hasedau a'n hadnoddau i'r eithaf | Diwallu safonau cynaliadwy yn fyd-eang ac yn lleol | Cydweithio i wneud y mwyaf o gyfleoedd caffael ac arbed mwy ar gostau |
| **Targedau** | Gosod targedau boddhad sy'n heriol i randdeiliaid allweddol<br>Archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaeth cwsmeriaid sy'n gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd<br>Buddsoddi mewn hyfforddiant / datblygiad sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at well perfformiad ac effeithlonrwydd<br>Cadw at y safonau newydd ar gyfer y Gymraeg a chyfrannu at y targed cenedlaethol - 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br>Hyrwyddo gwerth a chapasiti ein staff i'r eithaf | Buddsoddi a chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol i 5,000 erbyn 2030<br>Adolygu safonau cartrefi gwag ac archwilio cyfleoedd i leihau amseroedd ailosod<br>Cynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd i'r eithaf.<br>Cyflwyno polisi lleithder a llwydni | Rhoi Strategaeth Mannau Gwyrdd ar waith<br>Cyflwyno safonau WHQS2/ rhaglenni datgarboneiddio i gwrdd â'r dyddiad cau cenedlaethol<br>Dyfeisio rhaglen sy'n cyflawni'r targed ynni cenedlaethol<br>Cyflawni sgôr EPC'A 100% ar ymhob adeilad newydd<br>Cynyddu cynhwysiant digidol i leihau effeithiau trafnidiaeth ar yr amgylchedd | Gwneud y mwyaf o fentrau hunanwasanaeth, a gweithredu mentrau newid sianel pellach ac ymgymryd ag ymarferion gwireddu buddion<br>Adrodd yn dryloyw ar berfformiad meincnodi gydag eraill ar draws y sector tai<br>Rhoi mesurau seiberddiogelwch ar waith<br>Gyrru perfformiad yn ymwneud â thaliadau gwasanaeth/ casglu rhent<br>Bodloni gofynion y Safonau Perfformiad Rheoleiddiol newydd (RS6)<br>Rhoi'r Ddeddf Caffael ar waith drwy:<br>• Hyrwyddo prosesau i'r eithaf i sicrhau'r gwerth gorau am nwyddau a gwasanaethau<br>• Mabwysiadu dulliau caffael hyblyg, ymgysylltu cyn caffael, dylunio tendr, rheoli contractau, cefnogaeth i FBaCh.<br>Ymwreiddio'r Fframwaith TCM i wireddu'r gwerth cymdeithasol a grëwyd yn nhermau ariannol |
| **Canlyniadau a Ddymunir** | Cyflawni/Cynnal lefelau boddhad chwartel uchaf<br>Taro targedau cenedlaethol<br>Mynd i'r afael â materion lleithder a llwydni, a gwella iechyd a lles ein tenantiaid yn gyffredinol | Gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, a throsglwyddo'r arbedion i gwsmeriaid<br>Lleihau amseroedd ailosod<br>Lleihau trosiant o ran tenantiaethau, cynyddu boddhad a gwella iechyd a lles tenantiaid newydd. | Gwneud cyfraniad sylweddol at dargedau amgylcheddol lleol a chenedlaethol<br>Gwella ansawdd yr amgylchedd mewn cartrefi a chymunedau, felly'n cyfrannu at iechyd preswylwyr. | Rhyddhau adnoddau ychwanegol sydd ar gael o fewn y strwythurau presennol - Gwireddu arbedion cost sylweddol ar draws pob maes o'r busnes<br>Gyrru gwarged gweithredu i lawr i gael mynediad at gyfleusterau bancio cystadleuol<br>Sicrwydd rheoleiddiol<br>Mwy o arbedion a gyflawnir trwy gaffael effeithiol. |

Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy


**0345 677 2277**

**customerservices@monmouthshirehousing.co.uk**

**www.monmouthshirehousing.co.uk**

**Monmouthshire Housing Association**
**Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park**
**Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ**

**facebook.com/Monmouthshire.Housing**

**X.com/mon_housing**


Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os ydych chi angen y ddogfen hon yn Saesneg neu mewn unrhyw iaith arall, PDF, print bras, Braille neu mewn fformat sain.